**CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 3ydd Hydref 2018 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs W. Mullen-James (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs. J. Butterfield, Mrs. J. Chamberlain-Jones, A.S. Johnson, Mrs. D.L. King, Ms. J. McAlpine, B. Mellor, Miss S. Roberts, Ms. V. Roberts, R. Turner a Miss C.L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

Hefyd yn bresennol: y Cynghorydd T. Thomas

**23. YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr B. Blakeley, Ms. J. Hughes, K.R. Jones, ac A.J. Rutherford

**24. POLISI CYNLLUNIO AERFAETHEDIG AT Y DYFODOL – PRYDERON YNGLŶN Â CHEISIADAU YN ARWAIN AT LETY O ANSAWDD IS YN Y RHYL**

Ymhellach i Gofnod Rhif 4 cyfarfod 6ed Mehefin 2018, dywedodd Clerc y Dref bod yr eitem wedi ei chynnwys ar y Rhaglen i alluogi i'r Aelodau hysbysu Swyddogion Cynllunio'r Cyngor Sir o'u pryderon mewn perthynas ag ansawdd y llety sy'n cael ei gyflenwi drwy'r system gynllunio yn y Rhyl, a'r effaith gronnus bosibl y byddai nifer o geisiadau am lety ansawdd is yn cael ei chael ar y dref yn y dyfodol. Atgoffwyd yr Aelodau o effaith cyflwyno nifer fawr o dai aml-ddeiliad yn y 1980au cynnar a'r angen i gyflwyno rhagofalon i sicrhau nad oedd sefyllfa debyg yn codi yn y dyfodol.

Esboniodd Aelod nad oedd y pryderon presennol yn ymwneud â thai aml-ddeiliad, lle'r oedd mesurau rhwystro wedi eu cyflwyno.

Cytunwyd mai'r fecanwaith fwyaf priodol ar gyfer delio gyda'r mater fyddai cyflwyno polisi trwy gyfrwng arolwg o'r Cynllun Datblygu Lleol ac fe:

***BENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn cysylltu gyda'r Cyngor Sir i ofyn bod cynrychiolydd o'r Cyngor Tref yn cael ei benodi i'r Panel Arolygu ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ond os bydd y cais yn cael ei wrthod, bod yr Aelodau hynny sy'n gwasanaethu ar y Cyngor Tref a'r Cyngor Sir ac sydd hefyd yn gwasanaethu ar y Panel Arolygu yn cael eu cysylltu a gofyn iddyn nhw gefnogi sylwadau'r Cyngor*.

Mewn perthynas â hyn, nodwyd bod y Cynghorwyr B. Blakeley, J. Chamberlain-Jones a A. James yn bodloni'r meini prawf hyn.

**25. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr Aelodau y Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir arnynt nawr.*

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

**[Datganodd y Cynghorydd R Turner ei fuddiant personol a rhagfarnus yng nghais rhif 45/2018/0872 gan ei fod yn aelod o'r criw bad achub a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio ar y mater.]**

| **ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| **25.1** | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Gorsaf Bad Achub, Marine Parade, y Rhyl<br><br>**WARD:** Plastirion<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** K.R. Jones<br>T. Thomas<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2018/0872<br><br>**DISGRIFIAD:** Gosod cabinet diogel i ddal system pibell/golchi ac adeiladu gwasanaeth dŵr newydd.<br><br>**YMGEISWYR :** Mr. Robin Parry, RNLI, Poole<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| **25.2** | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 9 Hen Afon Road y Rhyl<br><br>**WARD:** Trellewelyn<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** A.S. Johnson<br>Mrs. W. Mullen-James<br>Ms. V. Roberts<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2018/0895<br><br>**DISGRIFIAD:** Adeiladu estyniad un llawr ar du blaen tŷ annedd<br><br>**YMGEISWYR :** Mr. Reece Jones o'r cyfeiriad uchod<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |

## 26. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod: ……………...…………

Dyddiad: …………………........